

Eich cyf / Your ref:  
Fy nghyf / My ref:  
Dyddiad / Date: 04-06-20

Gofynner am / Please ask for: Gareth Morgans  
Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 01267 246522  
E-bost / E-mail: EDMorgans@carmarthenshire.gov.uk

## Annwyl Riant,

Byddwch wedi gweld ar y newyddion bod Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, wedi cyhoeddi y bydd plant yng Nghymru yn cael y cyfle i 'Ddod i'r Ysgol, Dali ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf a mis Medi' o 29 Mehefin fel rhan o'r cam nesaf i ysgolion mewn ymateb i bandemig y coronafeirws.

Rydym yn deall bod y cyfnod hwn yn un cythryblus, ond gallwn eich sicrhau ein bod wedi bod yn gweithio'n galed i roi cynlluniau ar waith ar gyfer ein hysgolion er mwyn galluogi mwy o blant i fynychu pan fo'r amser yn iawn i wneud hynny.

Mae asesiadau risg yn cael eu cynnal ym mhob un o'n hysgolion ar draws y sir. Mae pob ysgol yn cael ei hasesu'n unigol yn dibynnu ar ei sefyllfa, ac efallai'n wir na fydd dull 'un ateb i bawb' yn gweithio. Golyga hyn na fydd rhai ysgolion o bosibl yn gallu cynnig yr un lefel o ddarpariaeth; mae'n dibynnu ar faint yr adeiladau a'r staff sydd yno. Y brif ystyriaeth yw cadw pawb - yn blant ac yn staff ysgol - mor ddiogel â phosibl.

Rydym yn creu cynllun gweithredu manwl a byddwn yn rhannu rhagor o wybodaeth â chi cyn gynted â phosibl. Mae'r rhagofalon y byddwn yn eu cymryd yn cynnwys:

- Cyfyngu ar faint y dosbarthiadau
- Amseroedd gwahanol o ran egwyl a chasglu a gollwng
- Mwy o lanhau

Os yw eich plentyn yn cael ei warchod â risg uchel, neu'n byw gyda rhywun sydd yn y grŵp hwn, ni ddylai ddod yn ôl i'r ysgol y tymor hwn a dylai barhau i ddysgu gartref.

Rwyf hefyd am eich sicrhau, os byddwch yn dewis peidio ag anfon eich plant yn ôl i'r ysgol y tymor hwn ni fyddwch yn cael dirwy.

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein holl baratodau ar gyfer ein hysgolion a'r mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i ganiatáu i ni wneud hyn. Gofynnwn i chi fod yn amyneddgar gan y gallai gymryd peth amser i roi'r holl drefniadau hyn ar waith.

Yn y cyfamser, mae ein canolfannau gofal plant yn dal ar agor i blant gweithwyr critigol a phlant sy'n agored i niwed; ac mae ysgolion yn parhau i gefnogi eich plant gyda'u dysgu gartref. Os oes arnoch angen unrhyw gymorth ychwanegol, mae croeso i chi gysylltu â'ch athro/athrawes.

Unwaith eto, diolch i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus, byddwn yn rhoi diweddariad i chi cyn gynted ag y gallwn.

Yn gywir,

Gareth Morgans

I gael diweddariadau pellach a rheolaidd ewch i wefan COVID-19 Cyngor Sir Caerfyrddin - [newyddion.sirgar.llyw.cymru/coronafeirws](https://newyddion.sirgar.llyw.cymru/coronafeirws)